# Bwletin y Farchnad HCC

Tachwedd 2022

> “Cafodd ‘Arolwg o Amaethyddiaeth a Garddwriaeth Mehefin 2022’ ei gyhoeddi yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru. Mae ei amcangyfrif o nifer y da byw ar ddaliadau yng Nghymru yn 2022 yn dangos gostyngiad bychan yn nifer y defaid ac ŵyn a chrebachu pellach yn y fuches gig eidion.”
>
> Glesni Phillips – Dadansoddwraig Ddata



## GWARTHEG

Mae arolwg Mehefin 2022 yn dangos cynnydd bychan am y drydedd flwyddyn yn olynol yn nifer yr holl wartheg a lloi ar ddaliadau yng Nghymru. Roedd y cyfanswm yn 1,131,800 o anifeiliaid, sef **0.3% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol**. Y rheswm pennaf am hyn oedd y cynnydd o 9% yn nifer y gwartheg llaeth benyw rhwng blwydd a dwy flwydd oed. Bu cynnydd pellach hefyd yn nifer y gwartheg dros ddwy flwydd oed a oedd wedi lloia (h.y. **y fuches odro**), sef cynnydd o 0.2% i gyfanswm o 255,900 o wartheg. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y rhan fwyaf o gategorïau o wartheg godro benyw, mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol a'r blynyddoedd cyn hynny. Mae'n debyg fod hyn yn ganlyniad i'r defnydd cynyddol o semen a bennwyd yn ôl rhyw yn arwain at ehangiad pellach o'r fuches odro. Fodd bynnag, mae'r **fuches eidion fagu** (h.y. buchod eidion dros ddwy flwydd oed sydd wedi lloia) yn dal i ostwng. Roedd y cyfanswm yn 156,690, sef 2% yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol. Hon yw'r fuches eidion fagu leiaf o ran nifer oddi ar y pegwn yn 2005. Fel canlyniad, roedd y fuches fagu yng Nghymru (gan gynnwys gwartheg cig a llaeth) yn 0.6% yn llai nag ym mis Mehefin 2021, a'r lleiaf a fu oddi ar 2014.

Roedd y gostyngiad mwyaf ar ddaliadau yng Nghymru, sef 7% i 33,280 o wartheg, yn y gwartheg llaeth benyw dros ddwyflwydd oed heb loi. Yn y fuches eidion gyfatebol, roedd y gostyngiad yn 0.3% i 39,580. Mae'n aneglur sawl un o'r gwartheg benyw hyn fydd yn cael eu symud i'r fuches fagu. Cafwyd cynnydd o 4% i 343,500 yn nifer y gwartheg o dan 12 mis oed – yn bennaf oherwydd cynnydd yn nifer y gwartheg llaeth benyw yn y categori hwn.





## DEFAID

Roedd gostyngiad bach yn nifer yr holl ddefaid ac ŵyn yng Nghymru yn ôl canlyniadau arolwg Mehefin – **roedd y niferoedd yn 1% yn llai na'r flwyddyn flaenorol**, gan roi cyfanswm o 9.4 miliwn. Gwelwyd gostyngiad yn niferoedd y defaid a'r ŵyn. Roedd cyfanswm yr holl ddefaid yn 0.8% yn llai na'r flwyddyn flaenorol, yn bennaf oherwydd gostyngiad o 31% yn y categori 'Defaid eraill (dros flwydd oed). Mae hyn yn awgrymu bod llai o anifeiliaid ar ôl ar y fferm o'r ŵyna blaenorol a bod llai o anifeiliaid wedi cael eu cadw ar y fferm am resymau aneglur (h.y. i'w difa neu i'w cadw ar gyfer magu.

Cafwyd gostyngiad bach hefyd yn y **ddiadell fagu**, sef gostyngiad o 0.4% (16,400 o anifeiliaid) i 4.4 miliwn o ddefaid. Gallai hynny olygu y bydd llai o ŵyn yn cael eu geni'r flwyddyn nesaf. Fodd bynnag, cafodd cynhyrchwyr wared ar anifeiliaid anghynhyrchiol er mwyn canolbwyntio mwy ar famogiaid eraill, gan obeithio cael gwell canran ŵyna o ddiadell fagu lai o faint. Fodd bynnag, anfonwyd 260,100 o famogiaid i'w lladd/difa, sef bron 3% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Mae'n debygol fod cynhyrchwyr am werthu anifeiliaid anghynhyrchiol am fod ansicrwydd ynghylch faint o borthiant a fyddai ar gael ac oherwydd cynnydd sylweddol yng nghostau mewnbwn y ffermydd.

Roedd cyfanswm **yr wŷn a anwyd yng Nghymru** yn 4.6 miliwn, sef gostyngiad o 1.6%. Ac eithrio'r nifer a gofnodwyd ym mis Mehefin 2020, dyma'r nifer leiaf oddi ar Mehefin 2012. Bydd gostyngiad sylweddol yn nifer yr ŵyn ar y ffermydd yn golygu y bydd llai o gyfenwad i'r farchnad; fodd bynnag, bu trwybwn y defaid llawn-dwf o gymorth drwy gydol eleni (eto am fod ffermwyr yn pryderu ynghylch costau mewnbwn).




## MOCH

Ar 01 Mehefin 2022, roedd 26,900 o foch yng Nghymru, sef **gostyngiad bychan o 1% mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol**. Y rheswm pennaf am y gostyngiad hwn oedd gostyngiad sylweddol yn nifer y moch magu mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol a blynyddoedd cynharach. Roedd nifer y **moch magu** yng Nghymru a gofnodwyd gan arolwg Mehefin 2022, sef 2,640, yn is nag a fu erioed.. Gallai hyn fod yn adlewyrchiad o'r costau cynhyrchu yn y sector sydd yn cynyddu drwy'r amser ac yn ei gwneud yn anodd i gynhyrchwyr wneud elw.

Mae hyn yn cael effaith wedyn ar gyfran y genfaint foch yng Nghymru. Yn 2010, roedd **moch yn pesgi** ar gyfer cynhyrchu cig yn cyfrif am 83% o'r genfaint, ond erbyn Mehefin 2022, roedd 90% o'r genfaint yn foch pesgi. Cafwyd cynnydd o 0.4% i gyfanswm o 24,260 o foch ar gyfer cynhyrchu cig ar ddaliadau yng Nghymru, sy'n awgrymu fod ffermwyr am arallgyfeirio drwy besgi moch.



## GWARTHEG

### Prisiau'r wythnos yn diweddu 19 Tachwedd

Y pris cyfartalog am wartheg dethol mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru a Lloegr oedd **247.9c/kg**. Roedd hyn:

- 3.4c yn uwch na'r wythnos flaenorol
- 13.4c yn uwch na'r flwyddyn flaenorol
- 47.2c yn uwch na'r cyfartaledd pum-mlynedd (cyfartaledd 2017-21: 200.7c/kg).


Roedd y pris pwysau marw cyfartalog am fustych yng Nghymru a Lloegr yn **438.7c/kg**. Roedd hyn:


- 1.3c yn is na'r wythnos flaenorol
- 27.1c yn uwch na'r flwyddyn flaenorol.

Roedd y pris pwysau marw am heffrod yn 435.6c/kg (0.6c yn is na'r wythnos flaenorol). Y pris am deirw ifainc oedd 430.4c/kg (+5.4c), a'r pris am fuchod difa oedd 322.1c/kg (-3.9c).

### Trwybwn – Mis Hydref 2022

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU oedd 254,300 o anifeiliaid – 10% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol oedd 173,200 o anifeiliaid – 8% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol
  - ➢ *bustych +7%, heffrod +8%, a theirw ifainc +15%.*
- Pwysau cyfartalog carcasau gwartheg dethol: 340.9kg (+0.3kg )
- Trwybwn y gwartheg llawn-dwf: 72,400 o anifeiliaid – 13% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol.




## DEFAID

### Prisiau'r wythnos yn diweddu 19 Tachwedd

Cyfartaledd y Dyfynbris Ansawdd Safonol (SQQ) pwysau byw am ŵyn mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru oedd **234.5c/kg**. Roedd hyn:

- 2.2c yn is na'r wythnos flaenorol
- 22.0c yn is na'r flwyddyn flaenorol
- 38.1c yn uwch na'r cyfartaledd pum-mlynedd (cyfartaledd 2017-21: 196.5c/kg).


Y pris cyfartalog am famogiaid difa mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru a Lloegr oedd **£58.20 yr anifail**. Roedd hyn:


- £7.20 yn is na'r wythnos flaenorol
- £6.80 yn is na'r flwyddyn flaenorol.

Roedd y pris cyfartalog pwysau marw am ŵyn ym Mhrydain yn 547.2c/kg (12.7c yn uwch na'r wythnos flaenorol).

### Trwybwn – Mis Hydref 2022

- Nifer yr holl ddefaid a laddwyd mewn lladd-dai yn y DU : 1.2 miliwn, sef 0.4% yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol.
- Y trwybwn ŵyn: 1.1 miliwn, sef 1% yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol
- Pwysau carcasau ŵyn ar gyfartaledd: 19.9kg (yn debyg i'r flwyddyn flaenorol)
- Trwybwn y mamogiaid a hyrddod difa: 108,100, sef 7% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol.




## MOCH

### Prisiau'r wythnos yn diweddu 12 Tachwedd

Roedd prisiau'r holl foch (manyleb yr UE) ym Mhrydain yn **204.9c/kg**. Roedd hyn:

- 0.3c yn uwch na'r wythnos flaenorol
- 55.0c yn uwch na'r flwyddyn flaenorol
- 50.3c yn uwch na'r cyfartaledd pum-mlynedd (cyfartaledd 2017-21: 154.6c/kg).

### Trwybwn – Mis Hydref 2022

- Cyfanswm y trwybwn moch yn lladd-dai 'r DU: 945,600 (yn debyg i'r flwyddyn flaenorol)
- Y trwybwn moch heb fagu: 926,000, sef 1% yn llai na'r flwyddyn flaenorol
- Pwysau cyfartalog carcasau moch heb fagu: 88.7kg (0.2kg yn drymach na'r flwyddyn flaenorol )
- Y trwybwn hychod a baeddod: 19,600, sef 53% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol.

